Atodiad 1

## Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng

| Ystyriaeth | Opsiwn 1: Trefn Un Gofalwr | Opsiwn 2: Trefn Heb Ofalwr | Opsiwn 3: Terfynu'r Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 1. Effaith ar drigolion | Gwasanaeth yn parhau, dim newid o safbwynt trigolion ar gallu i ddarparu monitro 24/7. | Gwasanaeth yn parhau, bydd recordio 24/7 ond heb y gallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau. Tebygol y bydd y trigolion perthnasol yn dod i ganfyddiad nad yw'r gwasanaeth cystal â'r presennol oherwydd nad yw yn ymatebol, er bydd angen mwy o gamerâu gyda'r opsiwn hwn. | Dim cyfraniad at ddiogelu ardaloedd poblog rhag troseddu a chamymddwyn cymdeithasol. Rhagwelir bydd adwaith negyddol yn yr ardaloedd perthnasol, gyda phryder am ddiogelwch personol, ar ddiddymu'r gwasanaeth. |
| 2. Effaith ar gynorthwyo'r heddlu | Dim newid o ran y ddarpariaeth bresennol sy'n cynnwys cyswllt a'r heddlu (drwy'r radio) pan fydd digwyddiadau. | Y gallu i dderbyn 'footage' yn parhau a bydd y lluniau o'r camerâu yn well a bydd mwy o gamerâu. Posib caniatáu i'r heddlu gael 'remote access monitoring'. | Ddim ar gael i'r heddlu i gynorthwyo mewn casglu tystiolaeth i erlyn, atal troseddu pellach. Posibiliad bydd cynnydd yn y troseddu yn y lleoliadau penodol fydd ac effaith ar yr heddlu. |
| 3. Effaith ar gyfranwyr eraill. | Disgwyl bydd dim newid o ran cyfraniadau o wasanaethau mewnol na Chynghorau Dinas/Tref a'r Brifysgol. | Posibiliad bydd yr anallu i fod yn ymatebol i ddigwyddiadau ddim yn cwrdd ag anghenion gwasanaethau mewnol e.e. diogelu depos. | Dim cyfraniadau gan yr heddlu, Cynghorau Tref a Dinas, Prifysgol a mewnol (£84k incwm). |
| 4. Effaith ar lefelau staff | Colled o 1 swydd (FTE). Parhau gyda 4 llawn amser a 2 achlysurol. | Colled o 4.5 swydd (FTE) a 2 ar oriau achlysurol. Bydd angen cadw 0.5 FTE er mwyn cyfuno rheolaeth y ganolfan gyda dyletswyddau eraill. | Colled o 5 swydd (FTE) a 2 ar oriau achlysurol. |
| 5. Effaith ar offer a thechnoleg | Angen newid o'r system analog bresennol a newid oddeutu 50 o 73 camerâu dros gyfnod o 2 flynedd. | Angen buddsoddi mewn camerâu statig eglurder uchel a chyswllt diwifr er mwyn sicrhau 'footage' a recordiad o safon uchel. Cyswllt diwifr gwell mewn lleoliadau gwael o ran 'Wifi'. | Digomisiynu'r holl gamerâu, colofnau, canolfan fonitro. |
| 6. Costau Cyfalaf | Newid o system analog (Maxpro): £130k<br>Adnewyddu 50 camera: £190k<br>(dros 2 flynedd)<br>Cyfanswm: £320k. | Camerâu HD a chyswllt diwifr: £489k<br>Cyfanswm: £489k. | Digomisiynu: £236k arian cyfalaf. |
| 7. Arbedion Refeniw | 1 swydd FTE: £30k<br>Cyfanswm: £30k<br>(heb gynnwys costau diswyddo). | 4.5 swydd FTE + 'reliefs': £160k<br>Newid o BT Fibre Rental 'Di-wifr: £50k<br>£210k*[1]<br>*[1] Cyfnod ad-dalu'r Buddsoddiad Cyfalaf 2.5 mlynedd, felly ar gael o ail hanner 2020/21 (heb gynnwys costau diswyddo). | 5 swydd FTE + 'reliefs': £190k<br>Dadgysylltu Fibre Rental: £50k<br>Cyfanswm: £160k*[2] (gyda cholled incwm)<br>*[2] Cyfnod ad-dalu'r costau digomisiynu yn flwyddyn, felly arbedion ar gael yn 2019/20 (heb gynnwys costau diswyddo). |